YOUR GUIDE TO MERTHYR TYDFIL'S HOUSEHOLD WASTE RECYCLING CENTRES (HWRC)

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

PotterGroup

recycle for Merthyr Tydfil
ailgylchu dros Ferthyr Tudful

We must all play a part in recycling as much of our waste as possible in Merthyr Tydfil. This includes recycling as much waste as possible at our HWRC's as well as by using the Council's kerbside recycling collection services.

What is a HWRC?

HW&RC's are provided by the Council for residents to recycle and dispose of their household waste.

Where are they?

There are TWO HWRC's in the County Borough located at:

Aberfan Household Waste and Recycling Centre
Aberfan Road,
Aberfan,
Merthyr Tydfil,
CF48 4QE

Dowlais Household Waste and Recycling Centre,
The Bont
Gellifaelog Old Road
Dowlais
Merthyr Tydfil
CF48 3DA

When are they open?

	Aberfan	Dowlais
1st April - 31st October British Summer Time	09.00 - 20.00	09.00 - 20.00
1st November - 31st March British Winter Time	09.00 - 16.30	09.00 - 16.30

Both sites are open seven days a week all year round, except 25th December and 1st January.

Who manages the HWRC's?

Since September 2013, the Sites have been managed by Potters Waste Management on behalf of the Council and they must achieve some very challenging recycling rates as part of the contract. The waste management specialists are part of the well established Potter Group of companies based at Welshpool in Powys, which includes Potters Recycling.

NB: The HWRC's are for household waste only.

Materials that will be accepted at the HW&RC's for recycling:

Household and Car Batteries	Hardcore & Rubble	Juice Cartons (Tetrapak)
Fluorescent Tubes and Light Bulbs	Soil	Media – Books, CDs, Games and DVDs (Dowlais Only)
Fridges/Freezers	Wood	Mixed Textiles & Clothes
TV's/Monitors	Plasterboard (Dowlais Only)	Glass Bottles and Sheet Glass
WEEE (Electrical appliances)	Plastic Packaging	Used Engine Oil
Garden Waste (Japanese Knotweed is not accepted)	Hard Plastics	Paper
Vegetable Oil	Cans	Cardboard
Gas Bottles	Scrap Metal	

Small amounts of Asbestos are accepted at the Dowlais Site only. This should not be broken up and must be double bagged before it is taken to the site.

Unwanted items of furniture are also accepted at both sites.

This is not an exhaustive list and is subject to change as every effort is made to recycle as many types of material as possible.

General Waste

Residents are able to dispose of small amounts of non-recyclable waste at the sites. As far as practicable any recyclables must be seperated and placed in the appropriate container for recycling.

NB Whilst visiting the sites to deposit your waste you should be prepared to be asked to separate your waste into the appropriate containers. *This may include opening any bagged waste for inspection and further sorting. You may prefer to do this at home before arriving at the site to avoid any unnecessary delays.*

The sites have limited space, so they may need to restrict access to the public for health and safety reasons whilst lorries exchange full containers for empty ones.

Pedestrians

For health and safety reasons, pedestrians are not allowed to walk waste on to the sites to deposit recycling or waste.

Whilst visiting the sites, please ensure that:-

- You adhere to the site rules that are displayed at the sites.
- You listen to the site attendant(s) instructions
- You keep to the designated footpaths
- Children and Pets remain in your vehicle at all times

If you do not adhere to the above, you may be asked to leave the site.

Can I take a large van or vehicle to the site? Permit Scheme

Any resident of Merthyr Tydfil County Borough who wants to bring waste into the HWRC in a van or trailer must apply for a permit.

Cars and 4x4 vehicles (that have not had the seats removed from the rear) do not require a permit.

The following types of vehicle will require a permit:		**The following vehicles are not allowed to enter the sites:**	
Cars with a trailer	√	Large Box Vans	x
Caravanettes	√	Vehicles with a tail lift	x
4x4 vehicles with pick up backs	√	Vehicles over 3.5 tonnes	x
Minibuses/Large MPVs	√		
Vans	√		
Short wheelbase transit type vans	√		

Permits are available free of charge to residents of the County Borough and are limited to 6 per year. This must be presented at the site upon arrival. Each permit is valid for up to a maximum of 7 days. Householders are restricted to 3 permits at any one time.

Permits are available from:

- The Civic Centre, Castle Street, Merthyr Tydfil (01685 725138)
- Merthyr Tydfil Leisure Centre, Merthyr Tydfil Leisure Village (01685) 727476
- Aberfan Community Centre, Pantglas Road, Aberfan (01685 727373)
- The Central Library, High Street, Merthyr (01685 723057)
- Dowlais Library, Church Street, Dowlais (01685 725217)
- Treharris Library, Perrott Street, Treharris (01685 353483)

As the opening times vary at the above Council departments, it may be beneficial to check the opening times by telephoning the relevant number provided before visiting to obtain your permit.

When applying for a permit you will have to provide proof of address and ownership of the vehicle/hire agreement. If you are borrowing a van, the van owner must accompany you when applying for a permit.

Should you not use a permit, provided that you return it, we will issue another permit (up to the maximum of 6 per year).

Residents must separate their waste as much as is practical and dispose of it in the relevant containers on site.

Any site users delivering recycling or waste in a commercial vehicle, under the permit scheme, are required to complete a 'Declaration of Non Trade Waste Form' upon arrival at the site. **NB If you bring your waste to the site in a commercial type vehicle or with a trailer without a permit you will not be allowed to tip your waste.**

Trade Waste

If you are having work done by a trade person/builder/other private company, you should ensure that a skip is hired to dispose of any waste generated. It is your waste and you are responsible for ensuring the appropriate and legal disposal of it.

Waste from trade premises must not be brought onto the sites. As the sites are not currently licensed to accept trade waste, it is illegal to deposit trade waste at the HWRC's and traders will be refused entry.

If you are a trader in Merthyr Tydfil you must ensure you have a trade waste contract in place to manage your waste in the appropriate manner.

Please contact Merthyr Tydfil Council on:

Telephone: 01685 725138

Email: wasteservices@merthyr.gov.uk

Visit: www.merthyr.gov.uk or www.recycleformerthyr.co.uk

Waste Prevention Tips

It is far better to reduce the amount of waste you produce.

- **Reduce the amount of packaging you buy.** Try buying your vegetables loose rather than pre packed. You often pay for this extra packaging so you could also save money.

- **Take reusable bags with you when you go shopping.** By using your own reusable bag you will save money and reduce the amount of waste you are producing. If you do have to purchase carrier bags these can be recycled in your WOW box.

- **Smarter shopping.** Before you go shopping check what you have in the fridge and cupboards, make a list of what you need and stick to it. You'll avoid buying items you already have and save money at the same time. Using internet shopping facilities helps to avoid unnecessary purchases and can save money and fuel costs of having to travel to the shops.

- **Reduce your food waste.** Plan your meals in advance so that you only buy what you need when you go shopping. Avoid purchasing perishable Buy One Get One Free offers – false economy in the long run. By measuring out foods such as rice and pasta before cooking them you will reduce the amount of wastage that you have. If you do have leftovers from meals, try freezing them for another day or keeping them in the fridge and using as part of another meal the next day. For ideas on recipes using your leftovers visit www.lovefoodhatewaste.com.

- **Have you thought about using a compost bin for your vegetable peelings and garden waste?** These can be purchased from MTCBC at a reduced rate – Tel 01685 725138 if you are interested.

- **Avoid disposable items.** Plastic cups, disposable razors, and batteries that cannot be recharged may seem cheaper but once they have been used they have to be thrown away. By purchasing items that can be reused again and again, you will save money in the long run.

- **Stop receiving Junk Mail.** You can register with the Mail Preference Service by calling 0845 703 4599 or writing to Mailing Preference Service (MPS), DMA House, 70 Margaret Street, London W1W 8SS or visit www.mpsonline.org.uk

- **Make your own lunch.** Use lunch boxes rather than foil, cling film etc. Plastic takeaway cartons are ideal. It takes approximately 5 minutes to make a sandwich and it's much cheaper than buying pre-packed sandwiches everyday.

- **Real nappies.** By the time your baby is potty trained he or she could have had as many as 4000 nappy changes, or more! Real nappies will reduce your waste dramatically and will also save you money in the long run.

- **Go Green!** Have you thought about going paperless with your household bills? Many service providers such as gas, electricity and telephone companies now offer an online system of sending you your bills. Banks also offer a paperless statement service.

- **Sell or donate unwanted gifts.** Auction sites such as ebay are a great way to make money from your unwanted items. Alternatively sites such as Freecycle, which is a non profit online group which allows members to give away items they no longer need or acquire items they do need. Everything from furniture to electrical goods to toys is regularly posted. Unwanted clothing, toys, books and cds, amongst other things. can also be donated to charity shops.

- **Why not hire the items you need?** - if it's the kind of equipment you only use occasionally e.g. high pressure cleaner, wall paper stripper, carpet cleaner - why clutter up the house? Look up hire companies in the telephone directory or internet – you'll be amazed at the range of things you can hire.

Cynghorion Lleihau Gwastraff

Mae'n llawer gwell i leihau faint o wastraff yr ydych yn ei gynhyrchu

- **Lleihau faint o ddefnydd pacio yr ydych yn ei brynu.** Prynwch lysiau a ffrwythau rhydd ac nid wedi'u pecynnu. Yn aml rydych yn talu am y pecynnu ychwanegol felly gallwch arbed arian hefyd.

- **Defnyddio bagiau y gellir eu hailddefnyddio i fynd i siopa.** Trwy ail ddefnyddio eich bagiau eich hun byddwch yn arbed arian a lleihau faint o wastraff yr ydych yn ei gynhyrchu. Os oes rhaid i chi brynu bagiau gellir eu hailgylchu yn eich blwch WOW.

- **Siopa'n fwy craff.** Cyn i chi fynd i siopa gwiriwch beth sydd yn yr oergell a'r cypyrddau, gwnewch restr o'r hyn sydd ei angen a chadwch ato. Byddwch yn osgoi prynu eitemau sydd gennych yn barod ac arbed arian ar yr un pryd. Mae defnyddio cyfleusterau siopa ar-lein yn helpu i osgoi prynu pethau nad oes eu hangen arnoch a gall arbed arian a chostau tanwydd gan nad oes rhaid teithio i'r siopau.

- **Lleihau eich gwastraff bwyd.** Cynlluniwch eich prydau bwyd ymlaen llaw fel nad ydych yn prynu mwy na'r hyn sydd ei angen arnoch. Ceisiwch osgoi prynu cynigion "Buy One Get One Free" darfodus - dydych chi ddim yn arbed yn y pen draw. Trwy bwyso bwyd fel reis a phasta cyn eu coginio byddwch yn lleihau faint o wastraff sydd gennych. Os oes gennych fwyd dros ben ar ôl pryd, ceisiwch ei rewi ar gyfer diwrnod arall neu ei gadw yn yr oergell a'i ddefnyddio fel rhan o bryd arall y diwrnod canlynol. Am syniadau ar rysetiau yn defnyddio bwyd dros ben ewch i www.lovefoodhatewaste.com.

- **Ydych chi wedi meddwl defnyddio bin compost ar gyfer eich sborion llysiau a gwastraff gardd?** Gellir prynu'r rhain gan GBSMT am bris gostyngol – ffoniwch 01685 725138 os oes gennych ddiddordeb.

- **Osgoi eitemau tafladwy.** Efallai bod cwpanau plastig, raseli tafladwy a batris sydd ddim yn ailwefradwy yn ymddangos yn rhatach ond unwaith iddynt gael eu defnyddio rhaid eu taflu i ffwrdd. Trwy brynu eitemau y gellir eu defnyddio eto ac eto, byddwch yn arbed arian yn y pen draw.

- **Dywedwch na wrth bost sothach.** Gallwch gofrestru gyda'r Gwasanaeth Dewis Post trwy ffonio 0845 703 4599 neu ysgrifennu at y Gwasanaeth Dewis Post (MPS), DMA House, 70 Margaret Street, London W1W 8SS neu ewch i www.mpsonline.org.uk

- **Gwnewch eich cinio eich hun.** Defnyddiwch focs bwyd yn hytrach na ffoil, haenen lynu ac ati. Mae cartonau prydau parod yn ddelfrydol. Mae'n Cymryd rhyw 5 munud i chi wneud brechdan ac mae'n llawer rhatach na phrynu brechdanau wedi eu pecynnu'n barod bob dydd.

- **Clytiau go iawn.** Erbyn i'ch plentyn ddysgu i ddefnyddio'r poti fe all ef neu hi fod wedi cael newid cewyn cymaint â 4000 o weithiau! Bydd cewynnau go iawn yn lleihau eich gwastraff yn sylweddol ac yn arbed arian i chi hefyd yn y tymor hir.

- **Ewch yn ddi-bapur!** Ydych chi wedi meddwl cael biliau di-bapur ar gyfer eich biliau cartref? Mae nifer o ddarparwyr gwasanaeth fel cwmnïau nwy, trydan a ffôn yn cynnig system o anfon biliau ar-lein. Mae banciau hefyd yn cynnig gwasanaeth datganiadau di-bapur.

- **Gallwch werthu'r eitemau nad ydych eu hangen neu eu rhoi i elusen.** Mae gwefannau ocsiwn fel ebay yn ffordd wych o wneud arian allan o bethau nad ydych eu hangen. Neu wefannau fel Freecycle, sy'n grŵp ar-lein dielw sy'n galluogi pobl i gael gwared ar bethau nad ydynt eu hangen neu ddod o hyd i eitemau y maen nhw eu hangen. Mae popeth ar gael yno o ddodrefn i nwyddau trydanol. Gellir rhoi dillad, teganau, llyfrau a chryno ddisgiau, ymysg pethau eraill, i siopau elusen.

- **Beth am logi'r eitemau sydd eu hangen arnoch?** gyda'r math o offer sydd ond yn cael ei ddefnyddio'n achlysurol e.e. glanhawr pwysedd uchel, tynnwr papur wal, glanhawr carped - pam llenwi'r tŷ? Chwiliwch am gwmnïau llogi yn y llyfr ffôn neu ar y we - cewch eich synnu gan yr amrywiaeth o bethau y gallwch eu llogi.

Gan fod yr amseroedd agor yn amrywio yn adrannau uchod y Cyngor fe all fod yn fuddiol i wirio amseroedd agor trwy ffonio'r rhif perthnasol cyn mynd i nôl eich trwydded.

Pan fyddwch yn gwneud cais am drwydded bydd yn rhaid i chi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad ac o berchnogaeth y cerbyd/cytundeb llogi. Os ydych yn benthyg fan, rhaid i berchennog y fan ddod gyda chi pan fyddwch yn gwneud cais am drwydded.

Os na fyddwch yn defnyddio trwydded, byddwn yn cyhoeddi un arall (hyd at uchafswm o 6 y flwyddyn) ar yr amod eich bod yn dychwelyd yr un sydd heb ei defnyddio.

Rhaid i breswylwyr wahanu eu gwastraff gorau ag y gallant a'i waredu yn y cynwysyddion perthnasol ar y safle.

Yn unol â'r cynllun trwyddedau, rhaid i unrhyw un sy'n dod â defnyddiau ailgylchu neu wastraff i'r safle mewn cerbyd masnachol, gwblhau 'Ffurflen Ymwadiad Gwastraff Masnachol' pan fyddant yn cyrraedd y safle. **Noder: os fyddwch yn dod â'ch gwastraff i'r safle mewn cerbyd masnachol neu gyda threlar heb drwydded ni chaniateir i chi dipio eich gwastraff.**

Gwastraff Masnachol

Os ydych yn cael gwaith wedi ei wneud gan berson masnachol/adeiladydd/cwmni preifat arall, dylech sicrhau bod sgip yn cael ei logi i waredu unrhyw wastraff a gynhyrchir. Eich gwastraff chi ydyw a chi sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn cael ei waredu'n briodol a chyfreithlon.

Ni ddylid dod â gwastraff o eiddo masnachol ar y safleoedd. Gan nad yw'r safleoedd yn drwyddedig i dderbyn gwastraff masnachol ar hyn o bryd, mae'n anghyfreithlon i adael gwastraff masnachol yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ac ni chaniateir mynediad i fasnachwyr.

Os ydych yn fasnachwr ym Merthyr Tudful rhaid i chi sicrhau bod gennych gytundeb gwastraff masnachol er mwyn rheoli eich gwastraff yn y modd priodol.

Cysylltwch â Chyngor Merthyr Tudful ar:

Ffôn: 01685 725138

Ebost: wasteservices@merthyr.gov.uk

Ewch i: www.merthyr.gov.uk or www.recycleformerthyr.co.uk

Cerddwyr

Am resymau iechyd a diogelwch, ni chaniateir i bobl gerdded i'r safleoedd i gael gwared ar ddefnyddiau ailgylchu neu wastraff.

Pan fyddwch yn ymweld â'r safleoedd, sicrhewch:-

- eich bod yn cadw at reolau'r safle sy'n cael eu harddangos yn y safleoedd.
- eich bod yn gwrando ar gyfarwyddiadau gweithiwr/gweithwyr y safle
- eich bod yn cadw at y llwybrau dynodedig
- bod plant ac anifeiliaid anwes yn aros yn y cerbyd trwy'r amser

Os nad ydych yn cadw at y rheolau hyn, efallai y gofynnir i chi adael y safle.

Ydw i'n cael mynd â fan neu gerbyd mawr i mewn i'r safle?
Cynllun Trwyddedau

Rhaid i unrhyw un sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sydd eisiau dod â gwastraff i'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref mewn fan neu drelar wneud cais am drwydded.

Nid oes angen trwydded ar gyfer ceir a cherbydau 4x4 (sydd heb dynnu'r seddi allan o'r cefn).

Bydd angen trwydded ar y mathau canlynol o gerbydau:		**Ni chaniateir mynediad i'r safleoedd i'r cerbydau canlynol:**	
Ceir â threlar	√	Faniau mawr gyda chab caeedig	x
Carafan fach	√	Cerbydau â chefn sy'n codi	x
Cerbydau 4x4 gyda chefn agored	√	Cerbydau dros 3.5 tunnell	x
Bysys mini/Cerbydau mawr sy'n cario pobl (MPV)	√		
Faniau	√		
Faniau math teithio gyda phellter byr rhwng echelydd	√		

Mae trwyddedau ar gael am ddim i breswylwyr y Fwrdeistref Sirol ac maent yn gyfyngedig i 6 y flwyddyn. Rhaid i drwydded gael ei chyflwyno pan fyddwch yn cyrraedd y safle. Mae pob trwydded yn ddilys am uchafswm o 7 diwrnod. Cyfyngir deiliaid tŷ i 3 trwydded ar y tro.

Mae trwyddedau ar gael yn:

- Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful (01685 725138)
- Canolfan Hamdden Merthyr Tudful, Pentref Hamdden Merthyr Tudful (01685) 727476
- Canolfan Gymunedol Aberfan, Heol Pantglas, Aberfan (01685 727373)
- Y Llyfrgell Ganolog, Stryd Fawr, Merthyr (01685 723057)
- Llyfrgell Dowlais, Stryd yr Eglwys, Dowlais (01685 725217)
- Llyfrgell Treharris, Stryd Perrott, Treharris (01685 353483)

Defnyddiau sy'n cael eu derbyn yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar gyfer ailgylchu:

	Batris Cartref a'r Car		Craidd Caled a Rwbel		Cartonau Sudd (Tetrapak)
	Tiwbiau Fflworolau a Bylbiau Golau		Pridd		Cyfryngau - Llyfrau, Cryno ddisgiau, Gemau a Disgiau DVD (Dowlais yn unig)
	Oergelloedd/Rhewgelloedd		Pren		Tecstilau Cymysg a Dillad
	Setiau Teledu/Monitorau		Bwrdd Plastr (Dowlais yn unig)		Poteli Gwydr a Gwydr Gwastad
	Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE)		Deunydd Pacio Plastig		Olew Injan Wedi ei Ddefnyddio
	Gwastraff Gardd (ni dderbynnir Clymog Japan)		Plastig Caled		Papur
	Olew Llysiau		Caniau		Cardfwrdd
	Poteli Nwy		Metel Sgrap		

Derbynnir ychydig o Asbestos yn Safle Dowlais yn unig. Ni ddylai gael ei dorri i fyny a rhaid ei roi mewn bag ac yna rhoi'r bag hwnnw mewn un arall cyn ei gymryd i'r safle.

Derbynnir dodrefn yn y ddau safle hefyd.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac mae'n gallu newid wrth i bob ymdrech gael ei wneud i ailgylchu cymaint o fathau o ddefnyddiau â phosib.

Gwastraff Cyffredinol

Gall preswylwyr gael gwared ar ychydig o wastraff na ellir ei ailgylchu yn y safleoedd hyn. Cyn belled ag y bo'n bosib dylid gwahanu gwastraff y gellir ei ailgylchu a'i roi yn y cynhwysydd priodol ar gyfer ailgylchu.

Noder: Pan fyddwch yn ymweld â'r safleoedd i gael gwared ar eich gwastraff dylech fod yn barod am gais i rannu eich gwastraff rhwng y cynwysyddion priodol. *Gall hyn hefyd olygu agor unrhyw wastraff mewn bag er mwyn ei archwilio a'i rannu ymhellach. Efallai ei bod yn well gennych wneud hyn adref cyn cyrraedd y safle er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen.*

Mae lle yn brin yn y safleoedd, felly efallai y bydd angen cyfyngu mynediad i'r cyhoedd am resymau iechyd a diogelwch tra y bydd lorïau'n amnewid cynwysyddion llawn am rai gwag.

Rhaid i bob un ohonom chwarae rhan yn ailgylchu hynny o'n gwastraff ag sy'n bosib ym Merthyr Tudful. Mae hyn yn cynnwys ailgylchu cymaint o wastraff â phosib yn ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn ogystal â defnyddio gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer casglu ailgylchu ar ochr y stryd.

Beth yw Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref?

Mae Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn cael eu darparu gan y Cyngor i breswylwyr ailgylchu a gwaredu gwastraff y cartref.

Ble maen nhw?

Mae dwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn y Fwrdeistref Sirol:

Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Aberfan
Heol Aberfan,
Aberfan,
Merthyr Tudful,
CF48 4QE

Dowlais Household Waste and Recycling Centre,
The Bont
Gellifaelog Old Road
Dowlais
Merthyr Tydfil
CF48 3DA

Pryd maen nhw ar agor?

	Aberfan	Dowlais
1af Ebrill - 31ain Hydref Amser yr Haf	09.00 - 20.00	09.00 - 20.00
1af Tachwedd - 31ain Mawrth Amser y Gaeaf	09.00 - 16.30	09.00 - 16.30

Mae'r ddau safle ar agor saith diwrnod yr wythnos trwy gydol y flwyddyn ac eithrio'r 25ain Rhagfyr a'r 1af Ionawr.

Pwy sy'n rheoli'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref?

Ers Medi 2013, mae'r Safleoedd yn cael eu rheoli gan Potters Waste Management ar ran y Cyngor a rhaid iddynt gyflawni cyfraddau ailgylchu heriol iawn fel rhan o'r cytundeb. Mae'r arbenigwyr rheoli gwastraff yn rhan o grŵp sefydledig cwmni Potter o'r Trallwng ym Mhowys, sy'n cynnwys Potters Recycling.

Noder: Mae Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar gyfer gwastraff y cartref yn unig.

EICH CANLLAW I GANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF MERTHYR TUDFUL

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

PotterGroup

recycle for Merthyr Tydfil
ailgylchu dros Ferthyr Tudful